**Rebecca Evans AS/MS**
**Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol**
**Minister for Finance and Local Government**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA/RE/2315/21

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

SeneddDCC@senedd.cymru

20 Tachwedd 2021

Annwyl Huw,

**Y Rheoliadau Prisio ar gyfer Ardrethu (Cymru) (Coronafeirws) 2021**

Rwy'n ysgrifennu mewn ymateb i'ch llythyr dyddiedig 16 Tachwedd. Er bod y polisi ardrethi annomestig wedi ei ddatganoli, mae rhai elfennau o'r system ardrethu, ar lefel ymarferol, yn gweithredu ar draws Cymru a Lloegr. Mae prisio, ac yn ei dro y cam cychwynnol o brosesu apeliadau, yn y categori hwn; ac Asiantaeth y Swyddfa Brisio yw'r corff sydd â'r cyfrifoldeb dros y materion hyn yng Nghymru a Lloegr.

Wrth roi sylw i'r mater hwn, bwriad Llywodraeth Cymru oedd ceisio sicrhau bod dulliau gweithredu cydweithredol ar waith ganddi hi a Llywodraeth y DU, a buom yn galw'n aml ar Lywodraeth y DU i gyfathrebu a chydweithio er mwyn cyrraedd consensws ar ddull gweithredu addas. Yn anffodus, nid yw wedi bod yn bosibl sicrhau dull gweithredu cydlynus, ac ni chafodd Llywodraeth Cymru wybod am fwriad Llywodraeth y DU nes bod y cyhoeddiadau wedi cael eu gwneud. At hynny, ychydig o ddata Asiantaeth y Swyddfa Brisio sydd wedi'u rhannu, ac mae hynny wedi cael effaith negyddol ar y gwaith o ddatblygu polisïau priodol ac amserol i Gymru.

Mae polisi Cymru ar faterion datganoledig yn cael ei lunio yng Nghymru, er y cydnabyddir hefyd bod natur ryng-gysylltiedig rhai materion polisi a gweithredu ar draws Cymru a Lloegr yn golygu ei bod weithiau'n well mabwysiadu dull cyson, er budd sicrwydd. Yn yr achos hwn, oherwydd yr effaith ar fusnesau ac eraill sy'n talu ardrethi yng Nghymru ac yn Lloegr, a'r ffaith bod cymorth busnes dilynol yn gysylltiedig â phasio'r Bil Ardrethu (Coronafeirws) ac Anghymhwyso Cyfarwyddwyr (Cwmnïau a Ddiddymwyd) (Y Bil), byddai dull gweithredu cydnaws yn ei gwneud yn haws defnyddio ysgogiadau ariannol sydd, i raddau llai, yn rhan o'r arfau datganoledig sydd ar gael i Lywodraeth Cymru.

Rwyf hefyd wedi nodi sylwadau'r Pwyllgor ynghylch amseriad gosod a chychwyn y Rheoliadau hyn.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Ar 23 Tachwedd, cynhelir dadl yn y Cyfarfod Llawn ar y Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer y Bil. Byddaf yn sicrhau bod cyfeiriad yn cael ei wneud at y Rheoliadau fel rhan o’r ddadl, er mwyn i’r Aelodau gael cyd-destun y mater dan sylw.

Yn gywir,



**Rebecca Evans AS/MS**
Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol
Minister for Finance and Local Government